



Llywodraeth Cymru Welsh Government

Annwyl bawb,

Mae pandemig COVID19 yn destun pryder i bob un ohonom ac yn achos pryder penodol i landlordiaid a thenantiaid. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â phartneriaid a chyrrff cynrychioliadol er mwyn darparu cymaint o ganllawiau a chymorth ag y gallwn.

Gallwch gael gfael ar y canllawiau diweddaraf ar **gadw'n saff** ar [dudalennau gwefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig](#), tudalen coronafeirws [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), sy'n cael ei diweddarau'n ddyddiol am 2pm a'r datganiadau diweddaraf ar [dudalennau Coronafeirws Llywodraeth Cymru](#).

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau penodol i'ch helpu i roi cymorth i'ch tenantiaid; mae'r canllawiau hyn ar gael [yma](#). Rydym hefyd wedi darparu canllawiau i denantiaid yn y sector preifat, sydd ar gael [yma](#). Anogir chi i rannu'r rhain gyda'ch tenantiaid, fel eu bod yn gwybod sut i ddiogelu eu hunain, ac at bwy i droi am gymorth.

Mae'r canllawiau yn rhoi'r cyngor diweddaraf sydd ar gael ar sut i'ch cadw chi a'ch tenantiaid yn ddiogel, hunanynysu, newidiadau i ddeddfwriaeth a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i chi a'ch tenantiaid, sy'n cynnwys cael seibiant o dalu morgais a rhyddhad treth i fusnesau.

Rydym yn cydnabod bod heriau i'w goresgyn ar draws y sector, ac y gallai landlordiaid wynebu anawsterau os bydd eu tenantiaid yn profi anawsterau ariannol yn sgil y pandemig. Rydym yn erfyn ar landlordiaid i gydweithio â'u tenantiaid, i ddeall ac i basio ymlaen yr hyblygrwydd y gall seibiant o dalu morgais ei roi, lle y bo'n berthnasol. Pan fo tenantiaid yn wynebu anawsterau sylweddol, gofynnwch iddynt geisio cyngor gan [Shelter Cymru](#) a/neu [Cyngor ar Bopeth](#). I lawer, bydd cymorth ar gael, gan gynnwys drwy'r system fudd-daliadau, nad ydynt efallai'n ymwybodol ohono.

Mae newidiadau cyfreithiol sylweddol wedi digwydd hefyd er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid, gan gynnwys

- Ymestyn y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i landlord ei roi i denantiaid er mwyn dirwyn tenantiaeth i ben i dri mis; ac
- Atal pob achos llys sy'n ymwneud ag adennill meddiant ar dai am 90 o ddiwrnodau



Llywodraeth Cymru Welsh Government

Rydym yn parhau i gydweithio â'n cyfeillion yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y prif faterion sy'n cael effaith ar y sector, er enghraifft, y newidiadau i hawl i fudd-dal, credyd cynhwysol, tystysgrifau diogelwch nwy a thystysgrifau perfformiad ynni. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi yn barhaus.

Yn sgil y cyngor i weithio gartref pan fo hynny'n bosibl, nid yw canolfan alwadau Rhentu Doeth Cymru yn gallu gweithredu. Rydym yn annog pawb sydd angen cysylltu â nhw i fynd at y tudalennau cwestiynau cyffredin, sydd i'w canfod [yma](#) yn gyntaf, i gael atebion i gwestiynau sylfaenol, neu i ddefnyddio'r ffurflen gysylltu ar-lein, sydd i'w canfod [yma](#).

Mae llawer o ymholiadau yn ein cyrraedd yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac yn gyffredinol ni allwn ymateb i bob ymholiad unigol. Yn lle hynny, byddwn yn diweddarau'r canllawiau a'r cwestiynau cyffredin ar [dudalennau tai Llywodraeth Cymru](#).

Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod heriol ac anodd i bawb ar hyn o bryd, ond rydym yn gobeithio y byddwch yn cydweithio â ni i sicrhau bod y sector rhentu preifat yng Nghymru yn parhau i allu darparu cartrefi saff a diogel.

Diolch a chymerwch ofal,

Emma Williams

Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio – Llywodraeth Cymru